## Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 28 Mai 2003

## i'w hateb ar 10 Mehefin 2003

**R Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant**
**W Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg**

**(Dangosir rhif gwreiddiol y cwestiwn mewn cromfachau)**

### *Gofyn i Brif Weinidog Cymru*

**1. David Davies (Mynwy);** A yw'r Prif Weinidog wedi trafod ag Ysgrifennydd Gwladol Cymru beth fyddai'r effaith ar bwerau Cynulliad Cenedlaethol Cymru pe bai Prydain yn llofnodi Cyfansoddiad Ewropeaidd newydd. (OAQ24529)

**2. Mike German (Dwyrain De Cymru);** Pa gynlluniau sydd yna i annog ffurfio Cynghorau Cymuned yn y rhannau hynny o Gymru lle nad oes rhai ar hyn o bryd. (OAQ24534)

**3. Peter Black (Gorllewin De Cymru);** A wnaiff y Gweinidog roi braslun o dargedau ei weinyddiaeth ar gyfer addysg yng Nghymru dros y pedair blynedd nesaf. (OAQ24532) **R**

**4. Mark Isherwood (Gogledd Cymru);** Pa gynlluniau sydd gan y Prif Weinidog i gynorthwyo Dociau Mostyn yn dilyn cyhoeddiad P&O yn ddiweddar y byddant yn rhoi'r gorau i gynnal gwasanaeth fferi oddi yno. (OAQ24650)

**5. Carl Sargeant (Alun a Glannau Dyfrdwy);** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar y ddarpariaeth ar gyfer Iechyd Meddwl yn etholaeth Alun a Glannau Dyfrdwy. (OAQ24560)

**6. Brian Gibbons (Aberafan);** A yw'r Prif Weinidog wedi ystyried yr angen am ymateb strategol ar y cyd er mwyn ymdrin â'r nifer cynyddol o danau sydd wedi eu cynnau'n fwriadol mewn coedlannau ac ar fynydd-dir yn y De yn ddiweddar. (OAQ24537)

**7. David Melding (Canol De Cymru);** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar waith Comisiwn Richard hyd yma. (OAQ24539)

**8. Irene James (Islwyn);** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar y modd y mae datblygiadau yn y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru wedi effeithio ar etholaeth Islwyn. (OAQ24547)

**9. Jonathan Morgan (Canol De Cymru);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar bolisi iechyd ei Lywodraeth ar gyfer y pedair blynedd nesaf. (OAQ24538)

**10. Helen Mary Jones (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** A wnaiff y Prif Weinidog

ddatganiad ar flaenoriaethau ei lywodraeth ar gyfer datblygu economi Canolbarth a Gorllewin Cymru. (OAQ24544)

**11. Owen John Thomas (Canol De Cymru);** Pa drafodaethau y mae’r Gweinidog wedi’u cael yn ddiweddar ynghylch dyfodol gwaith ASW. (OAQ24646)

**12. Gwenda Thomas (Castell-nedd);** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar rôl mudiad yr Urdd yng Nghymru. (OAQ24540) **R**

**13. Dai Lloyd (Gorllewin De Cymru);** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar amseroedd aros mewn ysbytai yng Nghymru. (OAQ24648)

**14. Alun Ffred Jones (Caernarfon);** Pa gynlluniau sydd gan y Llywodraeth i wella ffordd yr A470. (OAQ24545) **W**

**15. Catherine Thomas (Llanelli);** A all y Prif Weinidog wneud datganiad ar yr hyn y mae ei lywodraeth yn bwriadu ei wneud er mwyn gwneud cymunedau yn etholaeth Llanelli yn ddiogelach ac yn gryfach yn ystod ail dymor y Cynulliad. (OAQ24528)